Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# DISGRIFIAD SWYDD

## 1. MANYLION SWYDD

| | |
|---|---|
| Deiliad Swydd | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Teitl Swydd | Cynghorydd Cyfathrebu |
| Rheolwr Llinell | Pennaeth Polisi a Materion Allanol |
| Cyfarwyddiaeth | Polisi a Materion Allanol |
| Lleoliad | Hybrid / Caerdydd |

## 2. DIBEN Y SWYDD

- Gweithredu gweithgaredd cyfathrebu allanol CHC, yn unol â'n Strategaeth Materion Allanol.
- Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gydag aelodau eraill o'r tîm Polisi a Materion Allanol i ddynodi a sicrhau cyfleoedd ar gyfer sylw ac ymgysylltiad allanol yn ein gwaith ar ran ein haelodau. Bydd y swydd rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a chyngor ar risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- Arwain wrth weithredu, cydlynu a monitro cynllun a gweithgaredd cyfathrebu mewnol CHC ar draws y sefydliad a rhoi cyngor i'r Uwch Dîm Rheoli ac aelodau'r tîm.

## 3. STRWYTHUR ADRODD

*Snip, copy and paste from org chart in here.*

## 4. DIMENSIYNAU

1. Bydd y swydd hon yn rheoli cyllideb cyfathrebu o tua £5,000.
2. Ni fydd gan y swydd unrhyw gyfrifoldebau rheoli llinell uniongyrchol.

3. Bydd y swydd yn cefnogi'r tîm Polisi a Materion Allanol i gyfathrebu gwaith eiriolaeth CHC ar gyfer ei aelodau, yn arbennig drwy'r cyfryngau traddodiadol a'r cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.
4. Bydd y swydd yn cefnogi'r sefydliad cyfan drwy arwain ar gydlynu, gweithredu a monitro ein cynllun cyfathrebu mewnol a rhoi cyngor i'r Uwch Dîm Rheoli ac aelodau'r tîm.
5. Bydd gan y swydd gyfrifoldeb ar y cyd am wefan a sianelau cyfryngau cymdeithasol CHC, mewn partneriaeth gyda'r Cynghorydd Cyfathrebu ag Aelodau a Marchnata. Yn benodol, mae gan y swydd hon gyfrifoldeb am ein hadrannau corfforaethol a materion allanol.
6. Cymryd perchnogaeth am ddatblygu sylwadau ymatebol yn y wasg, datblygu perthynas gyda chysylltiadau allweddol yn y cyfryngau a chysylltiadau cyfathrebu yn y sector a rhanddeiliaid allanol. Bod yn gyfrifol am esgyn materion risg uchel a rhoi cyngor ar gyfathrebu i lywio gwneud penderfyniadau.
7. Casglu a dadansoddi ffynonellau allweddol o ddata i ddeall ein cynulleidfaoedd ac effaith ein gweithgaredd cyfathrebu.

**5. PRIF GYFRIFODEBAU'R SWYDD**

- Gweithio gyda'r tîm Polisi a Materion Allanol  i sicrhau newid a diwygio ar ran cymdeithasau tai yng Nghymru. Dylai hyn fod yn unol â'n Cynllun Corfforaethol a'n Strategaeth Materion Allanol drwy hybu gweithgaredd cyfathrebu allanol sy'n cefnogi CHC i sicrhau diwygio ar ran ein haelodau.
- Gweithio gyda'r Cynghorydd Cyfathrebu ag Aelodau a Marchnata i sicrhau fod ein cyfathrebu i bob cynulleidfa yn gydnaws, cydlynus ac yn gwneud argraff ar draws ein llwyfannau digidol. Sicrhau fod gennym sylfaen tystiolaeth cryf i ddeall perfformiad ein gweithgaredd cyfathrebu allanol ar draws ein llwyfannau.
- Cydweithio gyda'n haelodau a'r Cynghorydd Cyfathrebu ag Aelodau a Marchnata i ddweud stori'r sector i'n cynulleidfaoedd allanol.
- Meithrin cysylltiadau dylanwadol ac ymddiriedus gydag aelodau CHC a chysylltiadau yn y cyfryngau allanol a gwneuthurwyr penderfyniadau, trin ymholiadau ymatebol gan y cyfryngau a defnyddio'r rhwydwaith cryf hwn i ddynodi cyfleoedd i roi sylw i waith cymdeithasau tai a hyrwyddo ein nodau ymgyrchu.
- Rhoi cyngor ar gyfathrebu mewn argyfwng a risgiau sy'n dod i'r amlwg. I wneud hyn yn effeithlon, bydd angen i'r swydd ddatblygu cysylltiadau gryf gyda chymdeithasau tai, cysylltiadau yn y cyfryngau ac arweinwyr cyfathrebu ar draws sefydliadau rhanddeiliad.
- Cydlynu a monitro effaith gweithgaredd cyfathrebu mewnol CHC ar draws y sefydliad, yn cynnwys rhoi cyngor a chefnogaeth i aelodau'r tîm ac adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli ar gynnydd a risgiau.

**6. CYD-DESTUN GWAITH**

- Mae'r Cynghorydd Cyfathrebu yn rhan o'r tîm Polisi a Materion Allanol. Mae'n gyfrifol am bresenoldeb cyfathrebu allanol CHC yn ogystal â rhoi cefnogaeth ar gyfer cyfathrebu mewnol ar draws y sefydliad.

- Mae dweud stori ein sector yn rhan bwysig o'n gwaith i sicrhau newid a diwygio ar ran ein haelodau. Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gydag aelodau eraill o'r tîm Polisi a Materion Allanol i ddynodi a sicrhau cyfleoedd ar gyfer sylw ac ymgysylltiad allanol yn ein gwaith ar ran ein haelodau.

- Bydd deiliad y swydd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Cynghorydd Cyfathrebu ag Aelodau a Marchnata i sicrhau fod ein cyfathrebu i bob cynulleidfa yn gydnaws, cydlynus ac yn gwneud argraff.

## 7. YMREOLAETH A GWNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd y swydd yn gweithredu o fewn polisïau a gweithdrefnau gosod.

**Penderfyniadau a wnaiff y swydd hon:**

- Dynodi cyfleoedd a risgiau allanol yn unol â'n Strategaeth Materion Allanol a chynigion ar sut i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd neu liniaru risgiau.
- Datblygu blaengynllun o gynnwys cyfathrebu allanol rhagweithiol sy'n gydnaws gyda'n Strategaeth Materion Allanol a phenderfyniadau ar addasu hyn yng ngoleuni newid mewn amgylchiadau.
- Cyfrifoldeb am sicrhau dadansoddeg data priodol i ddeall ein perfformiad a gwneud addasiadau i'n cynllun yn seiliedig ar y data yma.
- Dynodi cysylltiadau allweddol y sector, cysylltiadau yn y cyfryngau allanol a rhanddeiliaid a chyfrifoldeb am adeiladu cysylltiadau cryf ac ymddiriedus.
- Cynllun gweithredu a chyngor strategol i reolwyr i gefnogi cyfathrebu mewnol ansawdd uchel ar draws y sefydliad.
- Penderfyniadau yn gysylltiedig â chysondeb brand ar draws ein hallbwn.
- Cyfrifoldeb am sicrhau fod ein gwefan yn gyfredol a chydlynu diweddariadau perthnasol a pherchnogaeth gan dimau perthnasol ar draws y sefydliad i sicrhau cynnwys perthnasol ac amserol.

**Penderfyniadau y bydd y swydd hon yn eu hatgyfeirio:**

- Caiff materion risg uchel eu hatgyfeirio at y Pennaeth Polisi a Materion Allanol, Pennaeth Polisi ac Ymchwil, Cyfarwyddwr Materion Allanol a'r Prif Weithredwr os oes angen ar gyfer penderfyniad ynghyd â chyngor gan ddeiliad y swydd.
- Caiff penderfyniadau ar ymadawiadau sylweddol o'r rhaglen waith a gynlluniwyd eu hatgyfeirio at y Pennaeth Polisi a Materion Allanol.
- Caiff penderfyniadau ar faterion ymgyrchu proffil uchel eu hatgyfeirio gyda chyngor i'r Pennaeth Polisi a Materion Allanol, Pennaeth Polisi ac Ymchwil, Cyfarwyddwr Materion allanol neu'r Prif Weithredwr fel sy'n briodol.
- Caiff materion cyfathrebu mewn argyfwng eu hatgyfeirio gyda chyngor at y Cyfarwyddwr Materion Allanol neu'r Prif Weithredwr fel sydd angen.

## 8. CYFATHREBU

Mae gwaith CHC yn digwydd yn fwyaf effeithlon pan mae gennym gysylltiadau cryf ac ymddiriedus gyda rhanddeiliaid allweddol, ein haelodau a'n cydweithwyr. Bydd angen i ddeiliad y swydd fuddsoddi amser yn adeiladu'r cysylltiadau hyn, yn cynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb. Bydd meithrin rhwydwaith proffesiynol cryf yn ganolog i'r gallu i gyflawni'r swydd hon yn effeithlon.

**Mewnol**

- Cynorthwyydd Materion Allanol
- Tîm Polisi a Materion Allanol
- Cynghorydd Cyfathrebu ag Aelodau a Marchnata
- Cyfarwyddwr Materion Allanol
- Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes
- Prif Weithredwr

**Allanol**

- Newyddiadurwyr a chysylltiadau allweddol yn y cyfryngau
- Arweinwyr cyfathrebu ar draws cymdeithasau tai
- Swyddogion cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol

## 9. PRIF FEYSYDD ANHAWSTER

- Sicrhau sylw i waith cymdeithasau tai a phroffil ar gyfer y deilliannau a geisiwn ar eu rhan mewn amgylchedd cyfryngau prysur lle mae cystadleuaeth.
- Sicrhau ymgysylltiad ansawdd uchel gan gynulleidfaoedd allweddol gyda'n deunydd allanol a'n hallbwn cyfryngau cymdeithasol.
- Cefnogi pob tîm i roi blaenoriaeth i gyfathrebu mewnol a bod yn rhagweithiol wrth ddynodi cyfleoedd i rannu eu gwaith, ymgysylltu ag eraill ac adeiladu dull gweithredu un tîm.
- Gweithio'n agos gydag aelodau uwch y tîm i gefnogi ar reoli cyfathrebu mewn argyfwng a chynllunio rhag blaen
- Mae gweithio mewn amgylchedd allanol sy'n esblygu'n gyflym yn golygu fod y gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth yn y gwaith a wnawn a'r ffordd y gwnawn hynny yn allweddol.

## 10. GWYBODAETH, SGILIAU A NODWEDDION SYDD EU HANGEN AR GYFER Y SWYDD

- Gradd neu gymhwyster proffesiynol perthnasol
- Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol

- Profiad o weithredu strategaethau i gefnogi cyfathrebu mewnol effeithlon drwy sefydliad
- Profiad o weithredu ymgyrchoedd neu brosiectau cyfathrebu llwyddiannus a dylanwadol
- Profiad a thystiolaeth o gefnogi dylanwadu drwy waith cyfathrebu llwyddiannus
- Profiad a thystiolaeth o arwain a chydlynu presenoldeb effeithiol ar y cyfryngau cymdeithasol ar amrywiaeth o lwyfannau
- Gallu a phrofiad i ddatblygu cysylltiadau cryf ac ymddiriedus drwy sgiliau rhyngbersonol cryf
- Sgiliau ysgrifenedig rhagorol yn cynnwys y gallu i deilwra cynnwys i wahanol gynulleidfaoedd
- Gallu i ddefnyddio data, ymchwil ac ymgysylltu i fesur a gwerthuso effaith ein gwaith
- Mae angen teithio i adeiladu cysylltiadau cryf ac ymddiriedus a chyflawni ein gwaith.

**Dymunol:**

- Gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg
- Gallu i reoli nifer o brosiectau ar yr un pryd
- Profiad o reoli cyllideb
- Profiad o ddarparu cymorth a chyngor cyfathrebu mewn argyfwng

**11. CYTUNDEB**

| | |
|---|---|
| Llofnod Deiliad y Swydd | Dyddiad |
| Llofnod y Rheolwr Llinell | Dyddiad |
| Teitl: | |